

Resuscitation Council UK


# Gallech chi achub bywyd.














Mae ataliad y galon yn golygu bod calon rhywun yn stopio curo, ac nid yw'n anadlu'n arferol neu mae wedi stopio anadlu'n gyfan gwbl.

**Heb weithredu'n gyflym, bydd yr unigolyn yn marw.**

Sicrhewch nad oes unrhyw berygl, yna dilynwch y camau syml hyn ar unwaith i roi'r siawns gorau i'r person oroesi:

**1. Gwaeddwch am help.**
- Ysgwydwch nhw'n ysgafn.

**2. Edrychwch a gwrandewch am arwyddion o anadlu arferol.**
- Edrychwch a yw brest y person yn codi ac yn disgyn.

**3. Ffoniwch 999. Rhowch y ffôn ar uchel seinydd (loudspeaker) a dweud eich bod gyda rhywun sydd ddim yn anadlu.**

**4. Bydd y sawl sy'n delio â galwadau ambiwlans yn dweud wrthych lle mae'r diffib(AED) agosaf.**

**Os oes rhywun gyda chi, gofynnwch iddyn nhw ei nôl.**

**Peidiwch â gadael yr unigolyn os ydych ar eich pen eich hun.**

**5. Dechreuwch gywasgu'r frest.**
- Plethwch eich bysedd.
- Rhowch eich dwylo ar ganol y frest.
- Gwthiwch i lawr yn galed ac wedyn rhyddhau ddwywaith yr eiliad a pheidiwch â stopio.

**Bydd y sawl sy'n delio â galwadau ambiwlans yn eich helpu.**

**6. Os oes gennych ddiffib, dylech ei roi ymlaen a dilyn y cyfarwyddiadau. Bydd yn dweud wrthych yn union beth i'w wneud.**

**7. Daliwch ati i roi CPR tan:**
- mae'r diffib yn gofyn i chi oedi tra bydd yn ailddadansoddi ac, os oes angen, yn rhoi sioc arall.
- bydd parafeddyg yn cyrraedd ac yn dweud wrthych beth i'w wneud
- mae'r person yn dangos arwyddion o fywyd.